Cofnodion Cyfarfod CYNGOR SIR CEREDIGION
a gynhaliwyd yn Neuadd y Cyngor Ceredigion, Penmorfa Aberaeron ac o bell drwy gynhadledd fideo ar Ddydd Gwener, 8fed Gorffennaf, 2022

YN BRESENNOL: Cynghorydd Ifan Davies (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Gethin Davies, Bryan Davies, Catrin M S Davies, Clive Davies, Euros Davies, Gareth Davies, Marc Davies, Meirion Davies, Rhodri Davies, Steve Davies, Amanda Edwards, Endaf Edwards, Eryl Evans, Gwyn Wigley Evans, Keith Evans, Rhodri Evans, Wyn Evans, Keith Henson, Paul Hinge, Geraint Wyn Hughes, Hugh Hughes, Chris James, Gwyn James, Ceris Jones, Maldwyn Lewis, Gareth Lloyd, Sian Maehrlein, Caryl Roberts, John Roberts, Wyn Thomas, Matthew Vaux Alun Williams a Carl Worrall

(10.45am - 12.40pm)

Gweithdrefn
Croesawodd Cadeirdd y Cyngor, y Cynghorydd Ifan Davies, bawb l'r cyfarfod a chadarnhaodd fod y cyfarfod yn cael ei weddarlledu.

1 Ymddiheuriadau
Ymddiheurodd y Cynghorwyr Endaf Edwards, Elaine Evans, a Mark Strong am eu hanallu i fynychu'r cyfarfod.

2 Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu
Datganodd y Cadeirydd fuddiant personol ar ran yr holl Gynghorwyr yn eitem 6 isod. Cytunodd pob Cynghorydd.

Datganodd y Cynghorwyr Gareth Davies a Rhodri Evans fuddiant personol a rhagfarnllyd mewn perthynas ag eitem 8 isod a thynnu'n ôl o'r cyfarfod yn ystod trafodaethau.

Datganodd y Cynghorwyr Bryan Davies a John Roberts fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 8 isod.

3 Materion Personol

a) Estynnodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Ifan Davies ei gydymdeimlad â'r Cynghorydd Sian Maehrlein ar brofedigaeth ddiweddar ei merch;
b) Estynnodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Ifan Davies ei gydymdeimlad â Rowland Rees Evans, yr Uchel Siryf a'r cyn-Gynghorydd yn dilyn profedigaeth ddiweddar ei dad;
c) Estynnodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Ifan Davies ei gydymdeimlad â theulu a ffrindiau'r Cynghorydd Hag Harris;

Gwelodd y Cyngor funud o dawelwch.

d) Cydsyniodd y Cynghorwyr Bryan Davies, Gareth Lloyd, Elizabeth Evans ac Alun Williams y cydymdeimlad uchod a thalu teyrnged i'r Cynghorydd Hag Harris;
e) Llongyfarchodd y Cynghorydd Catrin M S Davies Dr Daniel Huws ar gyhoeddi 'A Repertory of Welsh Manuscripts and Scribes;
f) Llongyfarchodd y Cynghorydd Catrin M S Davies Stevie Williams ar gael ei dewis i gynrychioli Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad;

g) Llongyfarchodd y Cynghorydd Catrin M S Davies Joshua Tarling ar gael ei dewis i gynrychioli Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad;
h) Llongyfarchodd y Cynghorydd Catrin M S Davies Alwen Butten ar gael ei dewis i gynrychioli Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad;
i) Llongyfarchodd y Cynghorydd Euros Davies Twm Ebbsworth ar ennill y Goron yn Eisteddfod yr Urdd yn Ninbych;
j) Llongyfarchodd y Cyngor Euros Davies Catrin Jones ar ennill y wobr Celf a Chrefft yn Eisteddfod yr Urdd yn Ninbych;
k) Llongyfarchodd y Cynghorydd Rhodri Davies Phyllis Kinney ar ddathlu ei phen-blwydd yn 100 oed;
l) Llongyfarchodd y Cynghorydd Caryl Roberts Emma Healy a'r tîm ym Meithrinfa Gogerddan ar ennill gwobr y feithrinfa orau yng Nghymru;
m) Llongyfarchodd y Cynghorydd Gareth Davies Brifysgol Aberystwyth ar ennill y safle cyntaf yng Nghymru a'r ail safle yn y DU mewn arolwg boddhad myfyrwyr diweddar;
n) Llongyfarchodd y Cynghorydd Eryl Evans Iwan Jones ar ennill medal arian ym Mhencampwriaethau Cymru yn y categori oedran 20-24;
o) Llongyfarchodd y Cynghorydd Ifan Davies dîm Ceredigion ar yr holl waith paratoi ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron.

4 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 13 Mai 2022, 20 Mai 2022 a 27 Mai 2022

PENDERFYNWYD cadarnhau bod Cofnodion cyfarfodydd y Cyngor a gynhaliwyd ar 13 Mai 2022, 20 Mai 2022 a 27 Mai 2022yn rhai cywir.

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

5 Apwyntio Aelodau i'r rolau canlynol:

PENDERFYNWYD penodi'r Aelodau canlynol:

Pwyllgor Iaith (sedd wag)	Y Cynghorydd Bryan Davies
Hyrwyddwr Aelodau 'Oed-gyfeillgar'	Y Cynghorydd Alun Williams
Fforwm Derbyn a Chyllid Ysgolion	Y Cynghorydd Bryan Davies Y Cynghorydd Wyn Thomas Y Cynghorydd Endaf Edwards
Grŵp Llywio Sipsiwn a Theithwyr	Y Cynghorydd Matthew Vaux Y Cynghorydd Clive Davies Y Cynghorydd Gareth Davies
Awdurdod Tân Canolbarth Cymru (sedd wag)	Y Cynghorydd Gareth Lloyd
Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru (a bydd hefyd yn mynychu Cyd-bwyllgor Tyfu Canolbarth Cymru)	Y Cynghorydd Wyn Thomas
Bwrdd Rheoli Maetholion Teifi	Y Cynghorydd Clive Davies

Cyd-bwyllgor Corfforaethol - Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu	Y Cynghorydd Rhodri Davies Y Cynghorydd Maldwyn Lewis Y Cynghorydd Carl Worrall Y Cynghorydd Gwyn Wigley Evans Y Cynghorydd John Roberts
Cyd-bwyllgor Corfforaethol - Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio	Y Cynghorydd Elizabeth Evans Y Cynghorydd Gareth Lloyd
Cyd-bwyllgor Corfforaethol - Is-bwyllgor Safonau	Y Cynghorydd Gwyn Wigley Evans
Cyd-bwyllgor Corfforaethol - Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol (TraCC) (Aelod ychwanegol)	Y Cynghorydd Alun Williams
Cyd-bwyllgor Craffu Iechyd a Gofal Canolbarth Cymru	Y Cynghorydd Paul Hinge Y Cynghorydd Caryl Roberts Y Cynghorydd Gwyn James
Panel Maethu Ceredigion	Y Cynghorydd Alun Williams
Bwrdd Rhanddeiliaid Cylch Caron	Y Cynghorydd Ifan Davies
Cyngor Llyfrau Cymru	Y Cynghorydd Endaf Edwards

6 Adroddiad ar Argymhellion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd mewn perthynas â'r materion a ohiriwyd gan y Cyngor mewn perthynas â'r Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol i'r Aelodau ar gyfer 2022/23

Cyflwynodd y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor yr adroddiad, gan nodi bod Rhestr Taliadau'r Aelodau ar gyfer 2022/23 wedi'i chymeradwyo gan y Cyngor ar 20 Mai 2022 ac eithrio paragraff 8, pwynt bwled 6 a 7 o'r adroddiad eglurhaol a pharagraff 15.1 o'r Atodlen, a ohiriwyd i'w hystyried ymhellach gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

Nododd y Cynghorydd Gareth Lloyd, Is-Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd fod y materion a ohiriwyd gan y Cyngor yn cael eu hystyried yn y cyfarfod ar 20 Mai 2022, a argymhellwyd y dylid annog Cynghorwyr nad ydynt yn aelodau o'r pwyllgor perthnasol neu nad ydynt yn cael eu gwahodd yn benodol i fod yn bresennol, i fynychu cyfarfodydd o bell, ac **y dylai Aelodau gysylltu â'r** Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Gwasanaethau Democrataidd **er mwyn sicrhau bod darpariaeth yn y gyllideb a bod angen mynychu'n bersonol**. Ni argymhellwyd unrhyw newidiadau i baragraff 15.1 o'r Atodlen, ond argymhellwyd bod Atodlen 2, dyletswyddau cymeradwy yn cael eu diwygio yn unol â pharagraff 8, pwynt bwled 7 o'r adroddiad eglurhaol. Nododd yr Aelodau bwysigrwydd yr effaith ar yr hinsawdd a'r costau sy'n gysylltiedig â theithio.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r diwygiadau canlynol i Restr Taliadau Aelodau 2022/23:

a) Paragraff 8; pwynt bwled 6 a 7 yr adroddiad eglurhaol:
Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021, bydd y Cyngor yn cynnal cyfarfodydd hybrid sy'n golygu na fydd angen i bob Cynghorydd fod yn bresennol yn Siambr y Cyngor er mwyn mynychu cyfarfodydd. **Anogir y rhai nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor perthnasol neu a wahoddir yn benodol i fod yn bresennol,** i fynychu cyfarfodydd o bell.

Dylai presenoldeb personol mewn cynadleddau, seminarau, cyfarfodydd allanol a digwyddiadau hyfforddi **gysylltu** â'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol, y Gwasanaethau Democrataidd **er mwyn sicrhau bod darpariaeth yn y gyllideb a bod angen mynychu'n bersonol**.

b) Atodlen 2, Dyletswyddau Cymeradwy, y paragraff cyntaf i'w ddiwygio fel a ganlyn, yn unol â pharagraff 8, pwynt bwled 7 yr adroddiad eglurhaol:
Dylai cynghorwyr gysylltu â'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd os ydynt yn bwriadu hawlio costau teithio a threuliau ar gyfer presenoldeb personol mewn cynadleddau, seminarau, cyfarfodydd y tu allan i'r sir a digwyddiadau hyfforddi, **er mwyn sicrhau bod darpariaeth yn y gyllideb a bod angen mynychu'n bersonol**.

7 Adroddiad ar Brotocolau Drafft ar gyfer Gwe-ddarlleu a chyfarfodydd o bell

Cyflwynodd y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor yr adroddiad i'r Cyngor gan nodi, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, ei bod yn ofyniad statudol i Gynghorau gyhoeddi trefniadau sy'n ymwneud â chyfarfodydd hybrid a darlledu cyfarfodydd. Nodwyd bod y protocol drafft yn ddarostyngedig i unrhyw ddiwygiadau sy'n ofynnol yn dilyn cyhoeddi canllawiau terfynol Llywodraeth Cymru, a sefydlu cam 2 o'r system hybrid. Ystyriwyd y protocol drafft gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ei gyfarfod ar 17 Mehefin 2022 ac argymhellwyd i'w gymeradwyo gan y Cyngor.

Gofynnodd yr Aelodau am gynnal Gweithdy i drafod agweddau fel effaith methiant technegol ar hawl Aelodau i bleidleisio. Nodwyd, lle ceir effaith dechnegol sy'n effeithio ar y cyfarfod cyfan, bod y drafodaeth wedi'i hatal er mwyn ailsefydlu cysylltiadau; fodd bynnag, pan fo Cynghorydd neu Swyddog unigol yn colli cysylltiad oherwydd capasiti band eang, neu'n gadael y cyfarfod dros dro i gymryd galwad ffôn, mae'r protocol yn adlewyrchu amgylchiadau lle mae Aelod sy'n mynychu'n bersonol yn gadael Siambr y Cyngor ac ni fydd y cyfarfod yn cael ei atal tra'n aros am ailgysylltu

Yn dilyn pleidlais, penderfynodd y Cyngor:

a) gymeradwyo'r protocolau fel y'u nodir yn Atodiad A o'r adroddiad;
b) i gynnwys y protocolau gyda Chyfansoddiad y Cyngor.

8 Adroddiad ar Gais i Gofrestru Tir fel Maes y Pentref yng nghae Erw Goch ar bwys Hafan y Waun, Waunfawr, Aberystwyth

Gadawodd y Cynghorwyr Gareth Davies a Rhodri Evans y cyfarfod drwy gydol y drafodaeth ar yr eitem ganlynol.

Cyflwynodd y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor yr adroddiad i'r Cyngor yn nodi bod cais wedi dod i law ym mis Chwefror 2021 i gofrestru tir ym Maes Erw Goch, Waunfawr ar y Gofrestr Meysydd Tref neu Bentref o dan Adran 15 o Ddeddf Tiroedd Comin 2006. Mae'r tir o fewn perchnogaeth Cyngor Sir Ceredigion, ac mae hefyd yn rhan o gais cynllunio ar gyfer datblygiad preswyl a gwaith cysylltiedig.

Nododd fod y Cyngor wedi ceisio cyngor cyfreithiol annibynnol, a bod rolau wedi'u gwahanu o fewn gwasanaethau perthnasol er mwyn osgoi gwrthdaro buddiannau posibl. Mae'r Awdurdod Cofrestru wedi anfon hysbysiad at bob person (ac eithrio'r ymgeisydd) y credir ei fod yn berchennog, les-ddeiliad, tenant neu feddiannydd unrhyw ran o'r tir yr effeithiwyd arno a chyhoeddwyd hysbysiad yn y Cambrian News a'i osod mewn gwahanol fannau mynediad ar y tir. Nodwyd y derbyniwyd 184 o gyflwyniadau ychwanegol pellach, a bod y Cyngor fel tirfeddiannwr wedi cyflwyno gwrthwynebiad i'r cais i gofrestru'r Tir fel Maes Tref neu Bentref drwy gyfreithwyr allanol.

Nid oes gweithdrefnau ffurfiol ar waith ar gyfer penderfynu ar geisiadau, fodd bynnag er mwyn ystyried rhinweddau'r cais a chymhwyso'r gyfraith, cynigir penodi Bargyfreithiwr i ystyried y cais ar ran y Cyngor fel Awdurdod Cofrestru a bod canfyddiadau'n cael eu hadrodd yn ôl i'r Cyngor i'w penderfynu'n derfynol ar y mater.

Cwestiynodd yr Aelodau'r cynnig i benodi Bargyfreithiwr, gan ofyn a oedd cyfarfodydd wyneb yn wyneb a chyfryngu wedi'u hystyried gyda'r nod o ddod o ganfod cyfaddawd, ac a fyddai'n briodol gofyn i awdurdod cyfagos weithredu fel Awdurdod Cofrestru. Nododd swyddogion mai'r Cyngor fyddai'n gwneud y penderfyniad ar y cais, ac os mai eu penderfyniad hwy oedd peidio â phenodi Bargyfreithiwr, byddent wedyn yn dibynnu ar y trafodaethau a'r casgliadau sy'n deillio o Swyddogion ar y mater hwn. Byddai penodi Bargyfreithiwr annibynnol yn rhoi sicrwydd i'r Aelodau bod y wybodaeth yn gyfreithiol gywir, ac y byddai'r Cyngor yn llai agored i'w herio. Nodwyd bod y Tir dan sylw wedi'i gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol a bod cais a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu wedi'i ohirio i ystyried y cais am Faes y Dref neu'r Pentref, felly efallai y bydd perygl o fod yn agored i her o gamweinyddu pe bai'r Cyngor yn cynnal trafodaethau gyda'r ymgeisydd ar hyn o bryd. Nodwyd hefyd y gallai'r Cyngor edrych ar weithdrefnau ar gyfer gweithio gydag awdurdod cyfagos er mwyn darparu diogelwch ychwanegol.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNODD** y Cyngor :

a) awdurdodi penodi Bargyfreithiwr i weithredu fel asesydd annibynnol;
b) bod y Bargyfreithiwr yn cynghori ar rinweddau'r cais i gofrestru'r Tir fel Maes Tref neu Bentref;
c) yn amodol ar y cyngor a roddwyd yn (b), bod y Bargyfreithiwr yn cynnal Ymchwiliad Cyhoeddus neu unrhyw wrandawiad arall a gynghorwyd gan y Bargyfreithiwr, a bydd y canfyddiadau a'r argymhelliad yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Cyngor i'w penderfynu ar y cais i gofrestru'r Dref neu Faes y Pentref.

9 Adroddiad ar apwyntio Aelodau cyfetholedig i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu

Cyflwynodd y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor yr adroddiad i'r Cyngor gan nodi, yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, fod dau gynrychiolydd o Rieni-Lywodraethwyr sy'n gwasanaethu ar Gyrff Llywodraethu Ysgolion ar hyn o bryd i'w penodi i wasanaethu ar y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu fel aelodau cyfetholedig sydd â hawliau pleidleisio. Un o'r sector cynradd ac un o'r sector uwchradd. Bydd tymor y penodiad yn para am 5 mlynedd o ddyddiad y penodiad neu hyd nes y bydd y cynrychiolydd yn peidio â bod yn rhiant-lywodraethwr neu'n ymddiswyddo o'r Pwyllgor. Cynhaliwyd ymarfer recriwtio ym mis Mai eleni.

Yn dilyn pleidlais **PENDERFYNWYD** cymeradwyo penodi'r aelodau cyfetholedig canlynol o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Sy'n Dysgu o 7 Gorffennaf 2022, am gyfnod o 5 mlynedd o'r dyddiad hwnnw:

- Cathryn A. Charnell-White (sector cynradd)
- Jonny Huw Greatrex (sector uwchradd).

10 Adroddiad ar Newidiadau i'r Prosesau Gwrandawiad Moeseg a Safonnau

Cyflwynodd y Cynghorydd Matthew Vaux, yr Aelod Cabinet dros Dai, y Gyfraith a Llywodraethu, Pobl a Threfniadaeth a Diogelu'r Cyhoedd yr adroddiad i'r Cyngor gan nodi bod adroddiad yr Adolygiad Annibynnol o'r Fframwaith Safonau Moesegol yng Nghymru yn argymell hyfforddiant gan y Pwyllgor Safonau ar gynnal gwrandawiadau er mwyn sicrhau bod y cyngor yn agored ac yn deg.

Ystyriwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau ar 17 Ionawr 2022 ac eto ar 25 Mai 2022 i ystyried argymhellion yn deillio o weithdy a gynhaliwyd ar 7 Ebrill 2022. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid cyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor i'w gymeradwyo.

Nododd swyddogion nad yw Cyngor Sir Ceredigion wedi bod yn destun ymholiad gan ombwdsmon nac wedi gorfod cynnal gwrandawiad yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, ond mae'n bwysig bod gweithdrefn gwrandawiad briodol yn ei lle, gan nodi y bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu ym mis Medi eleni.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNODD** y Cyngor yn unfrydol i gymeradwyo'r gweithdrefnau gwrandawiad 'Delio â Chwynion' diwygiedig.

11 Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ar Archwilio 2021-22

Cyflwynodd y Cynghorydd Matthew Vaux, yr Aelod Cabinet dros Dai, y Gyfraith a Llywodraethu, Pobl a Threfniadaeth a Diogelu'r Cyhoedd yr adroddiad i'r Cyngor gan nodi bod Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau sefydlu Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a chyhoeddi Adroddiad Blynyddol yn rhoi asesiad ar effeithiolrwydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac i roi sicrwydd o fynd i'r afael â materion a'u datblygu.

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol drafft o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2021-2022 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2022 ac fe argymhellwyd i'w gymeradwyo gan y Cyngor yn amodol ar ymgorffori cofnod presenoldeb Aelodau'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn.

Nododd y Cynghorydd Elizabeth Evans, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn ystod 2021-2022 fod yr adroddiad yn dangos y gwaith sylweddol a wnaed gan y pwyllgor hwn a diolchodd i'r Swyddogion a oedd yn cefnogi'r pwyllgor.

Nododd y Cyngor gynnwys Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2021-22 a fydd nawr yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

12 Dogfen Fframwaith Llywodraethol a Datganiad Llywodraethol Blynyddol ddrafft 2021-22

Cyflwynodd y Cynghorydd Matthew Vaux, yr Aelod Cabinet dros Dai, y Gyfraith a Llywodraethu, Pobl a Threfniadaeth a Diogelu'r Cyhoedd yr adroddiad i'r Cyngor gan nodi bod yr adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Cyngor ar 3 Mawrth 2022, a bod argymhellion y Cyngor wedi'u hystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 6 Mehefin 2022. Mae'r argymhellion bellach wedi'u hymgorffori, ac yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor, byddant yn cael eu cyflwyno i Archwilio Cymru cyn i'r Cyngor eu cymeradwyo'n derfynol.

Nododd y Cynghorydd Elizabeth Evans fod y diwygiadau i'r sgorio wedi'u hystyried mewn ymgynghoriad â Swyddogion a'u cynnwys yn yr ymatebion.

Nododd y Cyngor gynnwys Dogfen Fframwaith Llywodraethu 2021-2022 wedi'i diweddaru ac yn dilyn pleidlais**, PENDERFYNODD** y Cyngor yn unfrydol gymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft 2021-2022.

13 Adroddiad ar Ganllawiau i'r Cyfansoddiad a diwygiadau i Gyfansoddiad y Cyngor

Cyflwynodd y Cynghorydd Matthew Vaux, yr Aelod Cabinet dros Dai, y Gyfraith a Llywodraethu, Pobl a Sefydliadau a Diogelu'r Cyhoedd yr adroddiad i'r Cyngor, gan nodi bod y Canllaw i'r Cyfansoddiad a'r gwelliannau arfaethedig wedi cael eu hystyried gan y Gweithgor Cyfansoddiad yn ei gyfarfodydd dyddiedig 15 Mawrth a 20 Mehefin 2022.

PENDERFYNODD y Cyngor yn unfrydol i

a) gymeradwyo'r Canllaw Cyfansoddiad fel y'i diwygiwyd yn Atodiad 1;
b) gymeradwyo'r newidiadau i'r Cyfansoddiad yn Atodiadau 2-9; a
c) awdurdodi'r Swyddog Monitro i ddiweddaru Cyfansoddiad y Cyngor i adlewyrchu'r newidiadau uchod.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Medi

CADEIRYDD: _____